

## **COD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU O'R CORFF LLYWODRAETHU AC AELODAU CYFETHOLEDIG**

### **1. CYFLWYNIAD**

- 1.1.** Nodir dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu yn yr Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu a gymeradwywyd gan Lywodraethu Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru cynt) yn 2006. Mabwysiadodd Corff Llywodraethu Coleg Penybont ei Offeryn a'i Erthyglau Llywodraethu ei hun ym mis Mawrth 2019.

Bwriedir i'r Cod hwn fod yn ganllaw i Aelodau unigol o'r Corff Llywodraethu a'i Bwyllgorau (gan gynnwys Aelodau Cyfetholedig). Mae'n nodi'r safonau ymddygiad y disgwylir i Aelodau o'r Corff Llywodraethu ac Aelodau Cyfetholedig gydymffurfio â hwy er mwy eu galluogi i ddeall a chyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a chynnal perthnasau cywir â'r Gorfforaeth a'r Pennaeth, ac uwch reolwyr eraill. Bwriedir i'r Cod hwn ddarparu arweiniad ar gyfer llywodraethu corfforedig effeithiol a gwybodus. Ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad diffiniol nac awdurdodol o'r gyfraith.

- 1.2.** Yn ogystal â'r Cod hwn, argymhellir i Lywodraethwyr ymgysgu eu hunain â'r canlynol:

- (a) yr Offeryn a'r Erthyglau Llywodraethu;
- (b) Rheolau Sefydlog y Corff Llywodraethu a'i Bwyllgorau, yn ogystal â Chylch Gorchwyl pob Pwyllgor y maent yn eistedd arno;
- (c) Cynllun Strategol 2020-25
- (d) Rheoliadau Ariannol a'r Memorandwm Ariannol y cytunodd Coleg Penybont arno gyda Llywodraeth Cymru drwy'r Adran Addysg a Sgiliau.

- 1.3.** Os yw Aelod o'r Corff Llywodraethu neu Aelod Cyfetholedig yn ansicr o ddarpariaethau'r Cod hwn, dylid cysylltu â'r Clerc ac, os oes angen, dylid ceisio cyngor proffesiynol. Fodd bynnag, yn y pen draw yr Aelod unigol sy'n gyfrifol am ymddwyn mewn modd priodol yn ei swydd fel Aelod o'r Corff Llywodraethu / Aelod Cyfetholedig ac am unrhyw weithred neu hepgoriad yn rhinwedd y swydd honno.

- 1.4 Mae'r Cod hwn yn berthnasol i bob Pwyllgor ac is-gwmni y penodir yr Aelod iddo.
- 1.5 Trwy dderbyn penodiad â'r Gorfforaeth, mae pob Aelod yn cytuno i dderbyn darpariaethau'r Cod hwn.
- 1.6 Mae pob Aelod, trwy dderbyn darpariaethau'r Cod hwn, yn cytuno y gall unrhyw doriad o'r Cod hwn ganddo arwain at ei ddiswyddiad o'i rôl fel Aelod.

## 2. DEHONGLIAD

- 2.1. Yn y Cod hwn, mae "Coleg" yn golygu Corfforaeth Coleg Penybont, ac mae "Llywodraethwr", "Cadeirydd", "Pennaeth", a "Clerc" yn eu tro yn golygu Aelod o'r Corff Llywodraethu, Cadeirydd y Corff Llywodraethu, y Pennaeth, a'r Clerc i'r Gorfforaeth. Mae i bob diffiniad arall yr un ystyr a'r hynny a nodwyd yn yr Offeryn a'r Erthyglau Llywodraethu.

## 3. EGWYDDORION NOLAN

Fel y corff sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb cyffredinol dros lywodraethu sefydliad sy'n cael ei ariannu yn y sector cyhoeddus, mae'n rhaid i Gorff Llywodraethu Coleg Penybont gydymffurfio â'r egwyddorion a nodwyd gan y Pwyllgor Nolan ar gyfer deiliaid swyddi cyhoeddus, sef:

### 3.1. Anhunanoldeb:

*'Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd a hynny'n unig. Ni ddylent weithredu er mwyn cael budd ariannol neu fudd arall iddynt eu hunain, eu teuluoedd na'u cyfeillion.'*

### 3.2. Uniondeb:

*'Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu gosod eu hunain o dan unrhyw ymrwymiad ariannol nac ymrwymiad arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.'*

### 3.3. Gwrthrychedd:

*'Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrau a buddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail rhinwedd.'*

### 3.4. Atebolrwydd:

*'Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu a fo'n briodol i'w swyddi.'*

### **3.5. Bod yn agored:**

*'Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored ag y bo modd ynglŷn â'r holl benderfyniadau a champau gweithredu a gymerant. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau ac ni ddylent gyfyngu ar wybodaeth ac eithrio pan fo'n amlwg fod hynny er budd y cyhoedd.'*

### **3.6. Gonestrwydd:**

*'Mae dyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fudd preifat yn ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.'*

### **3.7. Arweinyddiaeth:**

*'Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweiniad ac esiampl.'*

## **4. DYLETSWYDDAU LLYWODRAETHWYR**

- 4.1.** Mae gan lywodraethwyr ddyletswydd ymddiriedol i'r Sefydliad. Golyga hyn y dylent ddangos ffyddlondeb o'r radd eithaf, gweithredu ag ewyllys da er budd y Coleg, a pheidio â gwneud unrhyw elw preifat o ganlyniad i'w swydd fel Llywodraethwr. Dylai Llywodraethwyr weithredu mewn modd gonest, diwyd, ac annibynnol (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cod hwn o ran cyfrifoldeb cyfunol).
- 4.2.** Dylai llywodraethwyr gefnogi nodau ac amcanion y Coleg a hyrwyddo'r Coleg a'i staff a'i fyfyrwyr yn y gymuned ehangach.
- 4.3.** Pa bynnag benderfyniadau y mae Llywodraethwyr yn eu gwneud yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethu a'i Bwyllgorau, mae'n rhaid eu bod er budd y Coleg cyfan ac nid at unrhyw ddiben amhriodol nac er budd unrhyw unigolyn yn bersonol. Gellir dehongli "budd y Coleg" i olygu, yn bennaf oll, budd ei staff, myfyrwyr a defnyddwyr eraill gwasanaethau'r Sefydliad, a diogelu cyllid cyhoeddus. Dylai Llywodraethwyr ystyried y buddion hyn, a rhaid iddynt beidio â chaniatáu i unrhyw fuddion adrannol gymryd blaenoriaeth. Yn benodol, ni phenodir Llywodraethwyr Annibynnol i fod yn 'gynrychiolwyr' neu'n 'ddirprwyon' o unrhyw sefydliad allanol, ac ni allant fod yn gyfreithiol rwym i orchmynion a roddir gan eraill.
- 4.4.** Rhaid i Lywodraethwyr ufuddhau i ddarpariaethau'r Offeryn a'r Erthyglau Llywodraethu, ac yn benodol y cyfrifoldebau a roddwyd i'r

Coleg gan Erthygl 3(1) o'r Erthyglau Llywodraethu. Er gellir dirprwyo rhai pwerau neu swyddogaethau i Bwyllgorau'r Corff Llywodraethu neu i'r Cadeirydd **ni ellir** dirprwyo'r canlynol:

- (i) **pennu cenhadaeth a chymeriad addysgol y sefydliad;**
- (ii) **cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol ar gyfer incwm a gwariant;**
- (iii) **cyfrifoldeb dros sicrhau solfedd y sefydliad a'r Gorfforaeth a diogelu eu hasedau;**
- (iv) **penodi'r Pennaeth, y Clerc, a deiliaid unrhyw swyddi uwch eraill;**
- (v) **cyfrifoldeb dros glywed apeliadau yn erbyn diswyddiad y Pennaeth a deiliaid unrhyw swyddi uwch, a, phan fydd y Clerc yn aelod staff, clywed apêl y Clerc yn erbyn ei ddiswyddiad yn rhinwedd ei swydd fel aelod staff;**
- (vi) **addasu neu ddirymu'r Erthyglau Llywodraethu.**

**4.5.** Dylai Llywodraethwyr hefyd fod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng llywodraethu a rheoli, a'r cyfrifoldebau gwahanol ond cydategol a roddir i'r Pennaeth fel arweinydd academaidd a Phrif Weithredwr y Coleg. Tra mai swyddogaeth y Corff Llywodraethu yw cymeradwyo polisi strategol a chyfeiriad cyffredinol, a monitro perfformiad y Pennaeth ac unrhyw ddeiliaid swyddi uwch eraill, rôl y Pennaeth, gyda chefnogaeth aelodau eraill o'r uwch dîm reoli, yw cyflwyno polisiau i'r Corff Llywodraethu eu cymeradwyo, rhoi polisiau y'u cymeradwywyd gan y Corff Llywodraethu ar waith, a rheoli busnes y Coleg o fewn y cyllidebau a'r fframwaith y mae'r Corff Llywodraethu yn eu cymeradwyo. Dylai Llywodraethwyr wneud pob ymdrech i sicrhau bod y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth yn gallu cyflawni eu rolau priodol mewn modd effeithiol.

**4.6.** Mae Llywodraethwyr yn gyfrifol ar y cyd am ufuddhau i'r dyletswyddau a nodwyd yn y Memorandwm Ariannol y cytunodd Coleg Penybont arno gyda Llywodraeth Cymru fel amod ar gyfer derbyn cyllid cyhoeddus.

**4.7.** Er mai Llywodraeth Cymru yw prif ddarparwr cyllid y Coleg, dylai Llywodraethwyr fod yn ymwybodol fod y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am ddefnyddio incwm sy'n deillio o ffynonellau eraill yn gywir hefyd.

**4.8.** Rhaid i bob Aelod fod yn destun i wiriad DBS.

## **5. MEDRUSRWYDD, GOFAL A DIWYDRWYDD**

Dylai Llywodraethwyr, yn eu holl waith i'r Coleg, arfer y sgiliau sydd ganddynt a'r gofal a'r diwydrwydd y byddid yn eu disgwyl gan bersonau rhesymol o dan yr amgylchiadau. Bydd hyn yn enwedig o berthnasol pan fydd Llywodraethwyr yn gweithredu fel asiantau'r Coleg, er

enghraifft, pan gaiff swyddogaethau eu dirprwyo i un o Bwyllgorau'r Corff Llywodraethu neu i'r Cadeirydd. Dylai Llywodraethwyr ofalu eu bod yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl unrhyw Bwyllgorau maent yn gwasanaethu arnynt.

## **6. PWERAU**

Mae Llywodraethwyr yn gyfrifol am wneud penderfyniadau sydd o fewn y pwerau a roddwyd i'r Coleg gan Adrannau 18 a 19 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, fel y'i diwygiwyd. Os yw Llywodraethwr yn credu bod y Coleg yn debygol o fynd y tu hwnt i'w bwerau drwy wneud penderfyniad penodol, dylid cyfeirio'r mater at y Clerc ar unwaith i gael cyngor.

## **7. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

**7.1.** Fel personau sydd â dyletswydd ymddiriedol, dylai Llywodraethwyr geisio osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro (gwirioneddol neu bosibl) rhwng eu buddiannau personol a'u dyletswyddau i'r Coleg. Ni ddylent ganiatáu unrhyw wrthdaro buddiannau a all amharu ar eu gallu i wneud penderfyniadau. Dylai Llywodraethwyr hefyd fod yn ofalus i beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle y gellid canfod bod gwrthdaro buddiannau.

**7.2.** Atgoffir Llywodraethwyr, o dan adran 10(1) o Offeryn Llywodraethu'r Coleg, ni ddylent dderbyn neu ddal unrhyw fuddiannau yn eiddo'r Coleg, ac ni ddylent dderbyn unrhyw dâl am eu gwasanaethau (ac eithrio fel aelod o staff y Coleg) heb ganiatâd ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.

**7.3.** Atgoffir Llywodraethwyr hefyd, o dan adran 10(2) o Offeryn Llywodraethu'r Coleg, bod ganddynt ddyletswydd i ddatgelu unrhyw fuddiannau ariannol sydd ganddynt, neu a allai fod ganddynt, yn y canlynol:

- (a) cyflenwad gwaith neu nwyddau i'r Sefydliad neu at ddibenion y Sefydliad;
- (b) unrhyw gontract neu gontract arfaethedig sy'n ymwneud â'r Coleg; neu
- (c) unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r Coleg.

**7.4.** Fodd bynnag, nid buddiannau ariannol yn unig sy'n rhaid eu datgelu. Os yw'r cyhoedd yn debygol o neu'n sicr o ganfod bod buddiant yn debygol o amharu ar allu Llywodraethwr i wneud penderfyniadau annibynnol, yna dylai'r buddiant, boed yw'n un ariannol neu beidio, gael ei:

- (a) adrodd i'r Clerc; a'i
- (b) ddatgelu i'r Corff Llywodraethu neu i'r Pwyllgor cyn y caiff y mater dan sylw ei ystyried.

Bydd agenda pob cyfarfod y Corff Llywodraethu a'i Bwyllgorau'n cynnwys eitem 'Datganiad Buddiannau'. Wrth dderbyn y papurau ar gyfer y cyfarfod, dylai unrhyw aelod sydd â buddiant posibl roi gwybod i'r Clerc am hyn. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cadeirydd, a gellir gofyn i'r aelod hwnnw dynnu yn ôl o'r rhan o'r cyfarfod yr ystyrir y mater sy'n achosi'r gwrthdaro ynddi, ac ni chaiff yr aelod bleidleisio ynghylch y mater hwn o dan unrhyw amgylchiadau.

- 7.5. Rhaid i Lywodraethwyr beidio â derbyn rhoddion, lletygarwch na buddion o unrhyw fath os gellid canfod y byddai hyn yn effeithio ar eu penderfyniadau neu eu huniondeb personol. Dylid rhoi gwybod i'r Clerc ar unwaith am unrhyw roddion, lletygarwch neu fuddion a gaiff eu cynnig neu eu derbyn.
- 7.6. Bydd y Clerc yn cadw Cofrestr o Fuddiannau a fydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'n ofynnol i Lywodraethwyr ddatgelu'n rheolaidd bob blwyddyn pob buddiant busnes, ariannol neu fel arall, sydd ganddynt hwy neu (hyd y gwyddant) sydd gan eu gwŷr/gwragedd neu eu partneriaid, eu plant, neu aelodau agos eraill o'u teuluoedd; yna bydd y Clerc yn cofnodi buddiannau o'r fath ar y Gofrestr. Dylai Llywodraethwyr roi gwybod i'r Clerc pryd bynnag y mae eu hamgylchiadau'n newid ac y caiff buddiannau eu hennill neu eu colli.
- 7.7. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid cysylltu â'r Cadeirydd i gael cymeradwyaeth.

## **8. CYFRIFOLDEB CYFUNOL**

- 8.1 Mae disgwyl i Lywodraethwyr gydweithio â Llywodraethwyr eraill er budd y Colog. Mae'r Corff Llywodraethu'n gweithredu trwy Lywodraethwyr yn gwneud penderfyniadau mwyafrif mewn cyfarfodydd sydd â chworwm. Felly, mae penderfyniad y Corff Llywodraethu, hyd yn oed pan nad yw'n unfrydol, yn benderfyniad a wneir gan y Corff Llywodraethu'n gyfunol. Mae gan bob Llywodraethwr ddyletswydd i gefnogi'r penderfyniad, pa bynnag farn a fynegwyd yn y cyfarfod pan wnaed y penderfyniad.
- 8.2 Pan fydd Llywodraethwr yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan y Corff Llywodraethu, dylai'r Llywodraethwr sicrhau bod y mater o anghytundeb yn cael ei drafod a'i gofnodi. Os yw'r Llywodraethwr yn anghytuno'n gryf, dylid ymgynghori â'r Cadeirydd ac, os oes angen, dylid codi'r mater gyda'r Corff Llywodraethu yn ei gyfarfod nesaf. Os nad oes cyfarfod wedi'i drefnu, dylai'r Llywodraethwr gyfeirio at gymal

11(3) yr Offeryn Llywodraethu sy'n nodi y gellir galw cyfarfod arbennig o'r Corff Llywodraethu os yw pum aelod yn cefnogi'r cais. Fel arall, gall y Llywodraethwr, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd os yw hynny'n briodol, benderfynu ymddiswyddo o'r Corff Llywodraethu.

## **9. CYFRINACHEDD**

- 9.1.** Oherwydd atebolrwydd cyhoeddus y Corff Llywodraethu, dylid sicrhau, fel egwyddor gyffredinol, bod myfyrwyr a staff yn gallu cael mynediad i wybodaeth am drafodion y Corff Llywodraethu. Felly, dylai agendâu, cofnodion a phapurau eraill sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd y Corff Llywodraethu fod ar gael i'r cyhoedd ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo ar gyfer cyhoeddiad.
- 9.2.** Bydd yna achlysuron pan na fydd cofnodion o drafodaethau a phenderfyniadau ar gael i'r cyhoedd, er enghraifft pan fydd y Corff Llywodraethu'n ystyried materion sensitif neu unigolion a enwir, neu am resymau da eraill. Mewn achosion o'r fath, bydd y papurau a rennir ag Aelodau'r Corff Llywodraethu neu'r Pwyllgor yn cael eu nodi'n gyfrinachol ac ni fydd unrhyw gofnod o'r trafodaethau yn cael eu cynnwys yn y cofnodion a gyhoeddir i'r cyhoedd. Mewn rhai amgylchiadau, bydd y Corff Llywodraethu yn cynnal Cyfarfodydd Materion Cyfrinachol lle na fydd staff- a myfyriwr-aelodau'n cael bod yn bresennol (o dan Baragraff 13(3) o'r Offeryn Llywodraethu), ond dylid osgoi hyn lle bynnag y bo modd.
- 9.3.** Mae'n bwysig bod y Corff Llywodraethu a'i Bwyllgorau'n cael trafodaethau cyflawn ac agored er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd. I wneud hynny, mae'n rhaid i Lywodraethwyr ymddiried yn ei gilydd a rhannu cyfrifoldeb corfforaethol dros benderfyniadau. Dylai Llywodraethwyr gadw'n gyfrinachol pob mater y mae Aelodau o'r Corff Llywodraethu neu unrhyw un o Bwyllgorau'r Corff Llywodraethu'n credu, oherwydd ei natur, y dylid ei drin mewn modd cyfrinachol.
- 9.4.** Ni chaniateir i Aelodau wneud datganiadau sy'n ymwneud â thrafodion y Corff Llywodraethu na'i Bwyllgorau i'r wasg nac i'r cyfryngau na mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus. Ystyrir ei fod yn anfoesol i aelodau'r Corff Llywodraethu feirniadu Llywodraethwyr eraill yn gyhoeddus neu ddatgelu barnau y mae Llywodraethwyr yn eu mynegi yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethu neu ei Bwyllgorau.

## **10. PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

- 10.1.** Disgwylir i Lywodraethwyr fod yn bresennol yn y mwyafrif helaeth o gyfarfodydd y Corff Llywodraethu a'i Bwyllgorau er mwyn galluogi Llywodraethwyr i gyflawni eu swyddogaethau'n gywir. Os yw unrhyw

Aelod o'r Corff Llywodraethu neu Bwyllgor yn absennol o gyfarfodydd am fwy na chwe mis, bydd y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu'n trafod ei achos ac mae'n bosibl y bydd gofyn iddo/iddi ymddiswyddo.

## **11. DATBLYGU LLYWODRAETHU**

- 11.1.** Anogir Llywodraethwyr i ennill dealltwriaeth drylwyr o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau drwy gymryd rhan mewn Rhaglenni Cynefino a Hyfforddi Llywodraethwyr a ddarperir gan y Coleg.
- 11.2.** Er mwyn hyrwyddo llywodraethu effeithiol ac fel rhan o broses hunanwerthuso barhaus, bydd y Corff Llywodraethu'n hunanasesu ei berfformiad yn flynyddol.
- 11.3.** Bydd y Clerc i'r Corff Llywodraethu'n paratoi Adroddiad Blynyddol ynghylch gweithgareddau'r Corff Llywodraethu a fydd yn cael ei ystyried yn ystod yr hunanasesiad.

## **12. Y WEITHDREFN I'W DILYN MEWN ACHOSION O DDIFFYG CYDYMFFURFIO Â'R COD YMDDYGIAD**

- 12.1** Os yw'r Cadeirydd o'r farn bod aelod wedi cyflawni mân achos o dorri darpariaethau'r Cod, bydd y Cadeirydd yn trafod y mater hwn gyda'r aelod dan sylw ac yn ei gynghori ar ymddygiad priodol.
- 12.2** Os yw'r aelod yn parhau i weithredu mewn modd sy'n mynd yn groes i'r Cod, bydd hyn yn rheswm i ystyried penderfyniad i derfynu ei aelodaeth â'r Corff Llywodraethu. Penderfyniad y Corff Llywodraethu fydd gweithredu, a chaiff hyn ei gyfleu yn ysgrifenedig i'r aelod dan sylw.
- 12.3** Mewn achos o dorri'r Cod yn fwriadol, bydd y Cadeirydd yn rhoi rhybudd ffurfiol i ddechrau. Os nad yw ymddygiad yr aelod yn gwella, bydd hyn yn rheswm i ystyried penderfyniad i ddod â'i aelodaeth â'r Corff Llywodraethu i ben. Penderfyniad y Corff Llywodraethu fydd gweithredu, a chaiff hyn ei gyfleu yn ysgrifenedig i'r aelod dan sylw.
- 12.4** Os yw'r Cadeirydd o'r farn bod trosedd bwriadol yr aelod yn ddifrifol ac yn debygol o ddwyn anfri ar y Corff Llywodraethu a/neu'r Coleg, ystyrir penderfyniad i ddod â'i aelodaeth i ben a rhoddir hysbysiad ysgrifenedig heb rybudd ffurfiol ymlaen llaw. Rhoddir gwybod i'r aelod bod y Corff Llywodraethu yn ystyried penderfyniad i'w ddiswyddo o'r Corff Llywodraethu.



**Cymeradwywyd: Hydref 2020**  
**I'w adolygu: Hydref 2022**